



Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'r safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu (ar gyfer ymgynghori)

Cwestiynau cyffredin

Pam rydym angen safonau newydd?

Mae safonau newydd yn hanfodol er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru. Maent wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r diwygiadau ym maes addysg gychwynnol i athrawon, cwricwlwm newydd, fframwaith cymwysterau sy'n newid a lansio'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol.

Cynlluniwyd y model safonau proffesiynol newydd ochr yn ochr â'r proffesiwn, i'r proffesiwn. Dyma ganlyniad gwaith helaeth ar ran ysgolion, sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch ac arweinwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu, mireinio a phrofi'r safonau.

Mae'r safonau newydd yn rhoi'r pwyslais o ran dysgu proffesiynol a thwf yn nwylo'r unigolyn fel proses barhaus a di-dor. Yn hytrach na bod yr unigolyn yn casglu 'tystiolaeth' yn erbyn safonau lu gydol ei yrfa, rydym am i bob unigolyn gael ei ystyried yn gyfrifol am eu twf eu hunain a gweithio i safonau proffesiynol uchel sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym am i bob person deimlo'n atebol yn broffesiynol, a bod yn falch o'u hymdrechion i gyfrannu i'w hysgol, y proffesiwn ac addysg yng Nghymru. Drwy weithio gyda'r proffesiwn, pum safon yn unig sydd gennym nawr, ac maent yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith beunyddiol pob athro. Yn yr un modd, mae pum safon ar gyfer arweinwyr a phump ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu.

Pryd fydd y safonau proffesiynol newydd yn dod i rym?

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar gael nawr ac mae unigolion ledled Cymru wedi bod yn symud tuag at eu defnyddio.

Gallai athro sy'n symud i ysgol newydd aros tan hynny, er enghraifft. Neu gallai rhywun sy'n cael dyrchafiad ddechrau ar ei swydd newydd gan ddefnyddio'r safonau newydd. Daw'r safonau'n orfodol i bob athro ac arweinydd ym mis Medi 2018.

Mae athrawon newydd gymhwyso eisoes yn cyflawni eu cyfnod ymsefydlu yn unol â'r safonau newydd, a bydd pob myfyriwr sy'n cychwyn addysg gychwynnol i athrawon yn eu defnyddio o fis Medi 2019 ymlaen.

Bydd safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion o fis Medi 2018 ymlaen. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn nhymor yr hydref a bydd fersiwn derfynol y safonau ar gael i'w defnyddio gan bob cynorthwywr addysgu o fis Medi 2019 ymlaen.

Beth yw 'gwerthoedd ac ymagweddau'?

Ceir chwech o werthoedd ac ymagweddau cyffredinol sy'n gymwys i bawb sy'n gweithio mewn ysgolion: hawl proffesiynol; y Gymraeg a diwylliant Cymru, hawliau dysgwyr; llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol; y dysgwr proffesiynol a rôl y system. Nid yw'r gwerthoedd a'r ymagweddau'n disodli Cod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg. Egwyddorion yw'r rhain y mae pawb yn eu harddel drwy weithio mewn ysgolion yng Nghymru, a dylent ategu gwaith pob gweithiwr proffesiynol.

Byddai methiant mewn perthynas â'r gwerthoedd a'r ymagweddau hyn yn golygu, beth bynnag arall a gyflawnir, *nad* yw'r safonau wedi'u cyrraedd ac mae'r unig ddewis fyddai gweithdrefnau gallu a fyddai'n aml yn cynnwys cynllun rheoli ar gyfer gwella.

Oes angen i bob person gasglu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'r safonau?

Bydd angen i fyfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon ac Athrawon Newydd Gymhwyso sydd yn eu cyfnod ymsefydlu ddangos bod eu profiadau proffesiynol yn bodloni **pob un o'r pum safon a'u holl ddisgrifyddion perthnasol**. Rhennir y dystiolaeth hon â mentor cyfnod ymsefydlu'r unigolyn dan sylw a chyda'r dilyswr allanol fel bo angen.

Mae hyn fwyaf effeithiol pan gaiff y dystiolaeth hon ei chasglu drwy gydol y flwyddyn ysgol fel rhan naturiol o waith proffesiynol, yn hytrach na fel tasg a wneir dim ond i fodloni proses achredu. Dylid nodi meddyliau, arferion a datblygiad fel dechrau proses sy'n datblygu o hyd ac yn dod yn rhan naturiol o yrfa gyfan.

Y disgwyl yw y bydd y rhai sy'n cael eu hasesu'n ffurfiol yn casglu tystiolaeth drwy Basbort Dysgu Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg, a fydd yn datblygu'r arfer o fyfyrion proffesiynol - arfer a fydd yn parhau gydol yrfa.

Ni ddisgwylir i neb sy'n gweithio fel athro neu arweinydd roi sylw i bob disgrifydd. Mae'r pum safon yn eglur, ac mae'r disgrifyddion yn darparu esiamplau defnyddiol a ffocws ar gyfer dysgu proffesiynol a thrafod.

Onid diben defnyddio'r safonau proffesiynol yw 'darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd'?

Na. Diben y pum safon broffesiynol yw helpu pob unigolyn i ddatblygu ymddygiadau proffesiynol a thyfu drwy gydol ei yrfa. Tybir y bydd profiad addysg gychwynol yr athro, a'r cyfnod ymsefydlu wedi galluogi'r athro i fod yn ymarferydd effeithiol. Os yw'r arferion priodol wedi'u datblygu erbyn y cam hwnnw, yna bydd y safonau'n gweithio fel canllawiau i alluogi proffesiynoldeb i flodeuo ac i alluogi pob unigolyn i arfer y proffesiynoldeb hwnnw er mwyn iddynt ymdrechu i fod y gorau y gallant fod ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Felly nid oes rhaid i unigolion brofi eu hunain yn flynyddol?

Mae'r safonau newydd yn cefnogi rheoli perfformiad fel proses barhaus yn hytrach nag un sgwrs unwaith y flwyddyn. Mae gan ysgolion gylchoedd rheoli perfformiad, a dylai'r safonau fod yn gefndir defnyddiol i bob ymarferwr ar gyfer trafod perfformiad mewn perthynas â'u swydd-ddisgrifiad a'u dyheadau ar gyfer datblygu.

Cyfle yw'r cylch rheoli perfformiad i fyfyrion ar y cyfnod blaenorol ac edrych am gryfderau a datblygiad, gan ddefnyddio'r pum safon fel fframwaith cyffredinol. Gydag addysgeg fel prif ffocws, gall y sgwrs archwilio p'un a yw'r pum dimensiwn yn gytbwys ynteu a oes agweddau y gellir eu datblygu ymhellach. Dylai pob unigolyn archwilio a phennu lle gallant ganolbwyntio'i sylw yn y flwyddyn i ddod er mwyn ceisio datblygu a thyfu, a hynny gan gyd-fynd â pholisïau'r ysgol a'r disgrifiad swydd.

Dylai ysgolion hefyd fod â threfniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer staff cymorth yn defnyddio'r safonau newydd. Dylid defnyddio'r rhain gyda'r un feddylfryd o feithrin a datblygu.

Beth yw diben y disgrifyddion?

Maent yn disgrifio agweddau ar waith proffesiynol sy'n helpu i lywio twf a datblygiad pellach. Mae'r disgrifyddion ar lefel mynediad yn gosod y safon ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn ac mae'r disgrifyddion ar gyfer arferion effeithiol iawn a pharhaus yn uchelgeisiol ac yn dargedau i anelu atynt. Mae llawer o'r disgrifyddion yn cysylltu ac yn cydgloi rhwng dimensiynau a'r nod yw y byddant yn ein helpu i edrych ar gymhlethdod addysgu. Efallai mai'r sefyllfa fydd y bydd pedwar neu bump disgrifydd yn dod yn ffocws ar gyfer y cam nesaf o dwf ac, eto, y daw'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn ffordd o gynllunio, cofnodi a myfyrio ar arfer.

Sut ydw i'n cael mynediad at y Pasbort Dysgu Proffesiynol?

Gellir cael mynediad at y Pasbort Dysgu Proffesiynol drwy wefan Cyngor y Gweithlu Addysg ac mae ar gael i bob ymarferwr sydd wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Sut mae defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol?

Diben y Pasbort Dysgu Proffesiynol yw myfyrio'n effeithiol ynghylch arfer, mewn modd nad yw'n creu gwaith diangen. Diben y safonau proffesiynol yw helpu i wella ansawdd addysgu a galluogi pobl i fwynhau'r gwaith. Dylai'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fod yn ddull naturiol a chynnil o helpu athrawon i gynllunio a chofnodi'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud i ddatblygu eu hunain, eu galwedigaeth ac, yn eu tro, y dysgwyr.

Yr unigolyn sydd berchen y Pasbort Dysgu Proffesiynol. Gall yr unigolyn ddewis ei rannu gydag eraill, boed hynny'n gydweithwyr yn gweithio ar brosiect ar y cyd neu'r person sy'n adolygu eu gwaith gydag ef.

Os wyf wedi cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, a fydd disgwyl i mi gyflawni pob un o'r disgrifyddion 'arferion effeithiol iawn a pharhaus' y flwyddyn ganlynol?

Nac oes. Mae disgwyl i bob unigolyn wneud cynnydd ym mhob dimensiwn bob blwyddyn a chael cefnogaeth i wneud hynny. Canllaw yw'r disgrifyddion 'arferion effeithiol iawn a pharhaus' ac maent wedi'u geirio i fod yn fwy amwys ac i ganolbwyntio'n fwy ar ddyheadau, a hynny'n fwriadol. Ni chânt eu hystyried fel pen draw, ond fel ffordd ymlaen. Hynny yw, gall rhywun sydd wir yn broffesiynol wella bob amser; mae ymdrechu i wella o hyd yn sail i'r holl safonau proffesiynol.

A oes rhaid imi ddangos y gallaf fodloni'r pum safon cyn i mi ymgeisio am ddyrchafiad?

Mae disgwyl i bob athro fodloni'r pum safon broffesiynol. Os na fydd yn gwneud hynny, yng nghyd-destun ei ddisgrifiad swydd a pholisïau'r ysgol, mae'n methu â bodloni disgwyliadau proffesiynol a dylai fod yn cael cefnogaeth ychwanegol neu'n destun gweithdrefnau gallu ac ni ddylai fod yn ystyried dyrchafiad, nac yn cael ei gefnogi i fynd am ddyrchafiad.

I'r mwyafrif llethol o ymarferwyr sy'n bodlon'r safonau, byddai cofnod o ddatblygiad drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn sail dda ar gyfer gwneud cais am ddyrchafiad.

Pam mai dim ond un set o safonau arweinyddiaeth ffurfiol sydd?

Y rôl ffurfiol o arwain sy'n cael ei chefnogi gan y safonau proffesiynol, yn hytrach na'r swydd. Mae angen gosod y safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth i gyd-fynd â'r disgrifiad swydd a pholisïau'r ysgol er mwyn cael y budd mwyaf ohonynt.

Mae angen i berson sy'n bennaeth cyfnod neu'n bennaeth adran berfformio'n effeithiol a thyfu a datblygu'n broffesiynol, yn union fel y pennaeth gyda'r un set o safonau. Daw'r gwahaniaeth o ran lefelau cyfrifoldeb pan fydd safonau a disgrifyddion proffesiynol yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r disgrifiadau swydd dan sylw.

Y meddwly tu ôl i hyn yw bod y rôl arweinyddiaeth ffurfiol yn tyfu wrth i rywun fynd o fod yn 'newydd yn y swydd' i 'arferion effeithiol iawn a pharhaus'. Gyda dyrchafiad pellach, byddai'r unigolyn yn darganfod ei hun mewn amgylchiadau newydd yn delio gyda heriau mwy. Golyga hyn weithredu'r un safonau proffesiynol mewn cyd-destun newydd a gwahanol. Yr un yw'r safonau proffesiynol, ond mae rôl y swydd (a'r swydd ddisgrifiad) yn newid.

Sut bydd y safonau newydd yn helpu'r ganran fechan nad ydynt yn ddigon da?

Gall y disgrifyddion ddarparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer gwella. Mae'r disgrifyddion yn darparu manylion sy'n ategu pob un o'r pum safon, a gellir cyfeirio atynt i helpu'r gweithiwr proffesiynol i ddatblygu o fewn y safon honno ee o ran Addysgeg, mae'r disgrifyddion yn rhoi cipolwg defnyddiol o'r dimensiynau sydd eu hangen ar gyfer addysgeg effeithiol. Drwy archwilio'r dimensiynau hynny, mae'n bosibl y daw'n fwy eglur pam bod gweithiwr proffesiynol yn methu â bodloni safon benodol. Y

gwaelodlin ar gyfer perfformiad ar gyfer y pum safon yw'r disgrifyddion sefydlu ac mae'n rhesymol disgwyl nad yw athrawon sy'n ymarferwyr byth yn cyflawni llai nag a ddisgwylir gan athro sy'n cwblhau ei gyfnod ymsefydlu. Yn achos y mwyafrif llethol o athrawon, byddant rhwng y disgrifyddion ymsefydlu a'r rhai ar gyfer arferion effeithiol iawn a pharhaus drwy'r amser.

Hefyd, mae'n hanfodol bod arweinwyr ar bob lefel yn cymryd cyfrifoldeb o ddifrif, fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y safonau proffesiynol. Dylai arweinyddiaeth effeithiol ganolbwyntio ar y ganran fechan nad ydynt yn bodloni'r safonau proffesiynol, gan ddefnyddio'r disgrifiad swydd ynghyd â pholisïau'r ysgol a safonau proffesiynol i fynd i'r afael â phroblemau perfformiad gwael. Mae ymddiried yn ein hymarferwyr fel pobl broffesiynol yn rhan annatod o'r safonau newydd.

Pan nad yw unigolyn yn cyflawni'r swydd a ddisgrifir, byddant yn methu â chyflawni mewn perthynas â pholisïau penodol yr ysgol. Mae gan bob safon ddisgrifydd. Y disgwyl yw y bydd athrawon yn gallu dangos eu bod yn gweithredu'n unol â pholisïau corfforaethol y cytunwyd arnynt, boed y rheiny'n bolisïau ysgol, lleol neu genedlaethol. Mae disgrifyddion eraill yn pwysleisio agweddau ar arferion a all amlygu diffygion, ond bydd unigolyn y mae ei berfformiad yn wael yn amlwg yn annigonol o ran un o'r pum safon. Mae'n bosibl na fydd y gwerthoedd a'r ymagweddau cyffredinol yn cael eu cyflawni ychwaith.

Pan fydd unigolyn yn methu'n gyson, dylid mynd ati i drefnu cymorth, ac yn yr achosion prin hynny pan fod angen, dylid rhoi gweithdrefnau gallu ffurfiol ar waith, a'u dilyn yn drylwyr.

Yr elfen bwysicaf yn y gwaith o ddelio â pherfformiad gwael yw ystyried polisïau ysgol, y disgrifiad swydd a'r safonau proffesiynol perthnasol oll ar yr un pryd.

Sut allwn ni helpu athrawon neu arweinwyr neu gynorthwyr addysgu i ddefnyddio'r safonau proffesiynol yn y ffordd orau ac i ddatblygu?

Yn y bôn, mater o gymryd cyfrifoldeb drosoch chi'ch hun ac eraill yw hyn. Gall rhai elfennau o'r disgrifyddion alluogi gwella arferion drwy greu amgylchiadau mewn ysgolion lle ceir cyfleoedd i gwrdd ag eraill sy'n arddangos arferion effeithiol iawn a pharhaus, neu i weithio gyda nhw. Efallai y byddai treulio amser ar ddysgu proffesiynol ffurfiol yn fuddiol, neu efallai darllen ehangach, a gallai cyfleoedd i weld dosbarthiadau eraill neu gysylltu â ysgolion eraill, yn lleol neu ymhellach i ffwrdd,

ddatblygu dealltwriaethau. Mae darparu mentora da yn hanfodol. Yn aml, mae'r anffurfiol a'r rheolaidd cyn bwysiced â'r trafodaethau proffesiynol ffurfiol, llai aml.

Cynlluniwyd safonau arweinyddiaeth ffurfiol i weithio i athrawon. Hynny yw, maent yn ei gwneud yn glir bod galluogi athrawon i ffynnu yn y pum safon, a hwyluso hynny yn un o swyddogaethau allweddol arweinyddiaeth.

Beth am Gynorthwyr Addysgu Lefel Uwch? A oes safonau proffesiynol ar wahân ar eu cyfer nhw?

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn cynnwys safonau ar gyfer Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch a Chynorthwyr Addysgu. Dylai Cynorthwyr Addysgu sy'n ymgeisio am statws Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch fod yn arddangos arferion effeithiol iawn a pharhaus yn y disgrifyddion perthnasol. Yna, caniateir iddynt ddilyn y cynllun ar gyfer Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch ac os ydynt yn llwyddiannus, dyfernir y statws hwnnw iddynt. Mae hyn yn golygu darparu tystiolaeth ysgrifenedig yn erbyn cyfres o ddangosyddion sy'n cyd-fynd â'r safonau ar gyfer cynorthwyr addysgu sy'n gweithio ar lefel arfer effeithiol iawn a pharhaus sydd yn cael ei asesu gan asesydd allanol.

Pam nad yw'r safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu ar bedair lefel i gyd-fynd â graddau'r swyddi?

Yn yr un modd ag y mae gennym un set o safonau ar gyfer athrawon, ac un set ar gyfer y rhai sydd mewn swyddi arweinyddiaeth ffurfiol, rydym yn cynnig un set o safonau ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Ni ddylid ystyried safonau ar eu pen eu hunain a dylent gydweddu â disgrifiad y swydd a pholisïau'r ysgol. Mae'r rhinweddau sydd eu hangen i wneud swydd yn dda yn aml yn debyg ar draws yr amrywiaeth swyddi yn y proffesiwn. Disgrifiad y swydd sy'n cyplysu swyddogaethau swydd â'i lefel, gan gynnwys lefel y cyflog. Mae'r disgrifyddion ar gyfer Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch yn ei gwneud yn eglur pa swyddogaethau a nodweddion lefel uwch sydd i'w disgwyl gan Gynorthwyr Addysgu ar y lefel uwch.

Fel gydag addysgu ac arweinyddiaeth, nod y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yw helpu pobl i dyfu a datblygu yn eu swyddi. Y disgrifiad swydd sy'n dangos lefel a statws yn hytrach na'r safonau proffesiynol; nod y safonau proffesiynol yw helpu deiliad swydd i wneud y swydd yn dda.

Pam bod y safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu yn rhai drafft?

Hyd yn hyn, nid oes safonau proffesiynol wedi bod ar gael ar gyfer llawer o'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Bydd set o safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu'n cael eu cyflwyno erbyn mis Medi 2019 ac rydym eisiau rhoi cyfle i ysgolion ddefnyddio'r safonau drafft a rhoi adborth inni drwy broses ymgynghori yn yr hydref. Bydd yr adborth yn cael ei ystyried cyn penderfynu ar fersiwn derfynol y safonau ar gyfer eu defnyddio ym mis Medi 2019.

Sut bydd y safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd yn cefnogi datblygu arweinyddiaeth?

Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn rhan allweddol o weledigaeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sy'n rhoi'r lle canolog i'r dysgwyr ym mhopeth a wnawn. Mae'r disgwyliad y bydd dysgu proffesiynol yn digwydd yn barhaus ac y bydd gallu arweinyddiaeth yn cynyddu ym mhob athro neu athrawes, o'r adeg y maent yn ymuno â'r proffesiwn, ac yn cefnogi datblygu proffesiynol gydol eu gyrfa, yn rhan hanfodol o'r weledigaeth. Mae'r model newydd yn adlewyrchu hynny drwy nodi arweinyddiaeth yn un o'r pum safon ar gyfer pob ymarferwr, ac nid ar gyfer y rhai mewn rôl arweinyddiaeth ffurfiol yn unig.

Rydym wedi datblygu safonau arweinyddiaeth ar gyfer yr athrawon hynny sy'n dewis symud i rolau arweinyddiaeth ffurfiol hyd at a chan gynnwys swydd pennaeth. Mae'r safonau arweinyddiaeth yn cefnogi datblygu drwy ddangos enghreifftiau o arfer cynnar mewn swydd arweinyddiaeth ffurfiol ac arferion effeithiol iawn a pharhaus o ran arweinyddiaeth.

Beth fydd rôl y safonau mewn perthynas â chyflogau?

Ni fydd rôl y safonau mewn perthynas â chyflogau a gweithdrefnau gallu yn newid.